**Eitem ar yr Agenda: 3**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Iau 18fed Mai 2006 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 12.15 y prynhawn.

**Yn bresennol:**

| Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W E Jones (dirprwy) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R D Peacock (dirprwy) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol); M P Halstead (Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); S Forrest (Cyfrifydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); K Hughes (Uwch Reolwr Datblygu); D G Roberts (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); R Jones (Swyddog Cefnogol Tîm Ymgynghorol y Prif Swyddogion); N Williams (Rheolwr Ystadau) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

| | |
|---|---|
| K W Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |
| C Hanks | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Hysbyswyd yr aelodau gan y Cadeirydd fod dwy eitem wedi cael eu cyflwyno i'w hystyried:

**Undeb y Diffoddwyr Tân Rhan Amser (RFU)** – Holodd y Cynghorydd WJ Chorlton a oedd Undeb yr RFU wedi cael ei chydnabod yn swyddogol fel un o gyrff cynrychioliadol y staff ac a ymgynghorid â hwy ynghylch pob mater. Yn ei ateb cyfeiriwyd y Cynghorydd Chorlton gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân at gytundeb pum pwynt a gymeradwywyd gan yr Awdurdod rai blynyddoedd ynghynt. Roedd y cytundeb hwn yn caniatáu i Undeb yr RFU gyfarfod â'r Prif Swyddog ddwywaith y flwyddyn. Yna, aeth y Dirprwy Brif Swyddog Tân yn ei flaen i restru'r grwpiau ymgynghori ffurfiol oedd yn bodoli yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac esboniodd nad oedd Undeb yr RFU yn eistedd ar y grwpiau hyn nac ar y pwyllgor cyd-ymgynghorol a sefydlwyd yn ddiweddar. Roedd cynrychiolwyr o'r ochr reoli ac o'r tri chorff cydnabyddedig sy'n cynrychioli'r staff yn gwasanaethu ar y pwyllgor hwnnw. Roedd y Pwyllgor wedi trafod a ddylid gwahodd Undeb yr RFU i ymuno, ond gwrthodwyd y cynnig hwnnw y tro diwethaf y cafodd hynny ei drafod.

**Gwobr Ddiogelwch Ryngwladol** – Hysbysodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Chris Enness y Panel fod Cyngor Diogelwch Prydain wedi dyfarnu ei Wobr Ddiogelwch Ryngwladol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Rhoddir y wobr glodfawr hon, sy'n cael ei chydnabod yn fyd-eang, i sefydliadau sy'n dangos eu bod yn rhagweithiol o ran rheoli iechyd a diogelwch. Llongyfarchwyd y Gwasanaeth gan yr Aelodau am dderbyn y gydnabyddiaeth hon.

**Warwick International** – Darllenodd y Cadeirydd lythyr gan Mr Bob Ellis, Rheolwr-Gyfarwyddwr Warwick International. Yn ei lythyr roedd Mr Ellis yn cofnodi ei werthfawrogiad i staff y Gwasanaeth am ymateb i dân ar safle'r cwmni ym Mostyn yn Ebrill 2006. Roedd Mr Ellis yn canmol sgiliau a phroffesiynoldeb y diffoddwyr tân wrth ymdrin â'r digwyddiad. Roedd y Prif Swyddog Tân wedi derbyn llythyr tebyg, a dywedodd wrth y Panel fod Mr Ellis wedi ei ffonio hefyd i ddiolch i'r Gwasanaeth am ei waith. Gofynnodd y Cadeirydd a'r aelodau i'w llongyfarchiadau a'u gwerthfawrogiad i bawb gymerodd ran gael ei gofnodi. Gofynnwyd hefyd i erthygl am y digwyddiad gael ei gynnwys yn y cylchgrawn "Er Gwybodaeth".

## 3) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar Fawrth 13eg 2006

ii. Y Panel Penodiadau a gynhaliwyd ar Fawrth 17eg 2006

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

## 4) Materion yn codi

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd.

Cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân y byddai Ms Dawn Docx, a benodwyd yn ddiweddar i swydd Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael), yn dechrau ar ei swydd gyda'r Gwasanaeth ar Fehefin 19eg 2006.

## 5) Y Cynllun Integredig Rheoli Risg – Cynllun Gweithredu'r Drydedd Flwyddyn

Cafodd y Panel wybod gan y Clerc fod Gweithgor y Cynllun Integredig Rheoli Risg wedi cwrdd ynghynt y bore hwnnw i drafod cynllun gweithredu'r drydedd flwyddyn yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Tân ac Achub, yn ei gyfarfod ar Fawrth 27ain 2006, i ohirio penderfyniad ynghylch mabwysiadu Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn y Cynllun Risg tan fis Mehefin. Aeth y Clerc yn ei flaen i esbonio bod yr aelodau, yn dilyn trafodaeth drylwyr yng nghyfarfod y Gweithgor, wedi argymell i'r Panel Gweithredol y dylai, yn ei dro, argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub ei fod yn mabwysiadu safon cyrraedd o 20 munud ar gyfer peiriannau cyrraedd yn uchel a thrwy hynny gadw'r pedwar peiriant presennol, ond y dylid adolygu'r sefyllfa ymhen deuddeng mis. Hefyd, gofynnodd yr aelodau i'r adroddiad fyddai yn cyflwyno'r Cynllun Gweithredu trydedd flwyddyn diwygiedig i'r Awdurdod gynnwys manylion goblygiadau ariannol y gwaith paratoi y byddai ei angen yn y dyfodol agos wrth arwain at gomisiynu peiriant cyrraedd yn uchel newydd. Byddai'r wybodaeth hon yn gymorth i'r Awdurdod wneud penderfyniad deallus ynghylch archebu cerbyd newydd ai peidio.

O ran y bwriadau ynghylch y Tendrau Argyfwng, roedd y Gweithgor yn argymell iddynt gael eu cymeradwyo fel yn y Cynllun Gweithredu, gydag amod ychwanegol y dylid mynd ati i uwchraddio'r cerbydau rheng flaen yn dilyn ystyriaeth i risgiau lleol, megis cefnffyrdd pwysig, pellter yr ysbyty gyffredinol agosaf ayyb. O ran y bwriadau ar gyfer y peiriannau deuddiben, yr argymhelliad oedd cymeradwyo'r bwriad fel yn y Cynllun Gweithredu drafft. Ar y pwynt hwn, dywedodd yr aelodau y dylai'r mathau yma o gerbydau, yn y tymor hir, gael eu cyflwyno mewn llefydd eraill drwy'r Gogledd lle nodir yr angen am beiriant o'r fath. Felly dylid ymdrechu i sicrhau'r cyllid angenrheidiol ar gyfer hyn. Yr argymhelliad ynghylch gweddill y bwriadau yn y Cynllun Gweithredu drafft oedd eu cymeradwyo fel y'i lluniwyd. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar Fehefin 19eg 2006: bod y Cynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn drafft yn cael ei gymeradwyo fel y'i lluniwyd gan aros cynnwys y gwelliannau canlynol:***

i. ***penodi amser cyrraedd o 20 munud ar gyfer peiriannau cyrraedd yn uchel, ac o ganlyniad i hynny, bod y pedwar peiriant presennol yn cael eu cadw, gan adolygu'r sefyllfa ymhen deuddeng mis;***
ii. ***uwchraddio'r holl offer achub hydrolig a gludir ar beiriannau rheng flaen. Y gwaith uwchraddio hwn i'w wneud ar sail asesiad risg. Wedi cwblhau'r gwaith uwchraddio, gwneud i ffwrdd a dau Dendr Argyfwng, a'r ddau dendr arall yn cael eu huwchraddio'n Unedau Achub Arbennig (Special Rescue Units (SRUs)); a***
iii. ***bod chwe pheiriant deuddiben a gynlluniwyd yn arbennig yn dod i'r Gwasanaeth gyda phedwar peiriant arall yn cael eu haddasu'n beiriannau deuddiben. Bydd y peiriannau hyn yn cael eu cadw mewn lleoliadau strategol ar draws y Gogledd fel yr argymhellid yng Nghynllun Gweithredu'r Drydedd Flwyddyn. Hefyd, ymholiadau i'w gwneud i weld a oes adnoddau ariannol ar gael yn y tymor hir i alluogi'r Awdurdod, yn seiliedig ar risg, i ehangu'r ddarpariaeth o beiriannau deuddiben i orsafoedd tân eraill o fewn yr ardal.***

## 6) Y Cynllun Lleihau Risg (RRP)

Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân fod yr Awdurdod Tân ac Achub, yn ei gyfarfod ar Fawrth 27ain 2006, wedi dirprwyo'r dasg o lunio Cynllun Lleihau Risg drafft i'r Panel Gweithredol. Roedd copi o'r Cynllun drafft wedi ei ddosbarthu i'r aelodau ynghyd ag adroddiad yn rhestru'r holl wybodaeth gefndirol a nodau a disgwyliadau'r Cynllun a oedd yn cyd-fynd ag Arweiniad Llywodraeth y Cynulliad. Roedd y Cynllun yn cwmpasu meysydd risgiau cymunedol a chorfforaethol. Gan mai dim ond ar Fawrth 21ain 2006 y cyhoeddwyd yr Arweiniad, ac oherwydd y fethodoleg ragnodedig ar gyfer cyhoeddi'r Cynlluniau ac ymgynghori yn eu cylch, roedd y gwaith asesu a dadansoddi y dylid bod wedi eu gwneud dros gyfnod o nifer o fisoedd wedi ei gywasgu i ychydig wythnosau. Oherwydd yr amserlen dynn, ac er mwyn caniatáu digon o amser i'r broses ymgynghori ar y Cynllun drafft ar gyfer 2007/08, roedd cyfarfod yr Awdurdod yn yr hydref bellach wedi ei aildrefnu ar gyfer Hydref 23ain 2006.

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Paul Claydon esboniad o ddiwyg y Cynllun Lleihau Risg drafft i'r aelodau a mynd drwy'r cynnwys. Er fod gofynion y Cynllun yn debyg i rai'r Cynllun Integredig Rheoli Risg (IRMP), esboniodd fod gofyniad ychwanegol dan gynllunio i leihau risg oedd yn ymwneud ag asesu risgiau corfforaethol.

Wedi trafodaeth faith ar y Cynllun drafft a'i gynnwys, gofynnodd aelodau'r Panel i'r gwelliannau canlynol gael eu hymgorffori yn y ddogfen cyn ei chyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad at ddiben trafodaeth anffurfiol ar fwriadau'r Awdurdod, a chyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub i'w gymeradwyo at ddiben ymgynghori:

i. Cywiro'r gwallau ysgrifennu/teipio ac esbonio'r holl fyrfoddau.

ii. Tud.9 – dewis term mwy priodol na Diogelwch Cymunedol (Community Safety) wrth ailenwi'r agwedd Diogelwch Tân Cymunedol er mwyn i'r cyhoedd allu gwahaniaethu'n rhwydd rhwng gwaith diogelwch cymunedol y Gwasanaeth a gwaith diogelwch cymunedol ehangach a wneir gan yr Heddlu, llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill.
iii. Tud.11 – at ddiben egluro a chysondeb, edrych eto ar eiriad y ddau baragraff llawn cyntaf.
iv. Tud.12 – yn ogystal â'r pwyslais ar bwysigrwydd gosod larymau mwg, dylid cyfeirio hefyd yn yr adran hon at fanteision gosod systemau taenellu mewn eiddo domestig a masnachol. Dylai'r cyfeiriad hwn gynnwys datganiad y bydd yr Awdurdod yn ceisio hyrwyddo gosod systemau o'r fath ar bob cyfle.
v. Tud.15 – yn ogystal â chyfeirio at Bentre Peryglon, dylid sôn hefyd am y cerbyd addysgol amlddiben newydd.
vi. Tud.21 – ymgorffori cyfeiriad yn yr adran ar Effaith ar yr Amgylchedd am y risgiau ychwanegol sy'n bodoli mewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig oherwydd deddfwriaeth y Llywodraeth sy'n gwahardd llosgi tyfiant. Mae lefel y prysgwydd yn yr ardaloedd hyn bellach yn risg ychwanegol i ddiffoddwyr tân, trigolion gwledig a'r cyhoedd. Hefyd, maent yn golygu risg allanol o ran tân i eiddo mewn ardaloedd gwledig, a byddai angen tynnu sylw at hyn fel rhan o'r fenter diogelwch tân cymunedol ar gyfer cartrefi mewn ardaloedd gwledig.
vii. Tud.28 – ym mharagraff olaf adran gyntaf y dudalen hon, dylid cynnwys rhybudd na fyddai'r Awdurdod yn cau allan yr opsiwn o godi tâl am ddarparu rhai gwasanaethau yn y dyfodol.
viii. Tud.35 – y paragraff cyntaf i gynnwys cyfeiriad y bydd datblygiad yr aelodau'n mynd ymlaen ar sail Cymru gyfan yn ogystal ag ar lefel leol.

Yn ystod y drafodaeth ar y Cynllun drafft cafodd y Panel wybod bod y swyddogion wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn ddiweddar i bwysleisio'r achos y dylai gosod systemau taenellu mewn ysgolion newydd ac ysgolion sy'n cael eu hadnewyddu fod yn orfodol. Yn ei hateb roedd y Gweinidog wedi datgan ei bod wrthi'n ymgynghori â'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch y mater hwn. I ateb cwestiwn ynghylch a oedd y swyddogion wedi adnabod effeithiau posib prinder dŵr fel rhan o'r maes pwnc ar yr Effaith ar yr Amgylchedd, dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth y Panel ei fod wedi comisiynu adolygiad ar broblem cludo digon o ddŵr i ardaloedd diarffordd lle gallai'r cyflenwad lleol fod yn gyfyngedig. Dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Paul Claydon wrth yr aelodau fod grŵp wedi ei sefydlu'n ddiweddar yn y Gwasanaeth i edrych ar y ffordd y gellid rheoli systemau larwm awtomatig yn well. Roedd cylch gwaith y grŵp wrthi'n cael ei lunio.

Mynegodd yr aelodau safbwynt y byddai cael taflenni diogelwch tân mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg yn dod yn fwyfwy pwysig yn y dyfodol oherwydd nifer y gweithwyr mudol oedd mewn rhai ardaloedd yn y Gogledd. Dywedodd y swyddogion y dylai'r Gwasanaeth fod mewn sefyllfa cyn bo hir i adrodd yn ôl i'r Awdurdod ar sgiliau ieithyddol y staff gan fod awdit

sgiliau o'i holl staff ar fin cael ei gynnal. Yn y gorffennol roedd y Gwasanaeth wedi dibynnu ar Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) i ddarparu taflenni mewn ieithoedd eraill. Roedd yn hysbys fod gwasanaethau tân ac achub cyfagos yn cyhoeddi taflenni mewn nifer o ieithoedd. Gellid holi'r Gwasanaethau hyn i weld a allai Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fanteisio ar y gwaith oedd eisoes wedi ei wneud.

O ran yr adolygiad oedd wrthi'n cael ei wneud i'r dull mwyaf priodol o dalu staff oedd yn gweithio'r System Ddyletswydd Ran Amser, holwyd a fyddai unrhyw ddull diwygiedig yn berthnasol i staff llawn amser oedd yn gweithio ar y system criw dydd oedd hefyd yn ymateb fel staff rhan amser y tu allan i'w amseroedd shifft arferol. Roedd y Cynghorydd W J Chorlton o'r farn y dylai unrhyw ddull diwygiedig o dalu gynnwys y staff hyn hefyd. Esboniodd y Prif Swyddog Tân oblygiadau hyn i staff y System Ddyletswydd Ran Amser a'r gwahaniaethau sy'n bodoli o ran y staff Criw Dydd.

Holodd y Cynghorydd E C George a ymgynghorwyd â'r Awdurdod ynghylch ad-drefnu ysbytai'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn y Gogledd, gan ei fod o'r farn ei bod yn bwysig fod yr Awdurdod yn cyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad.

***<u>Penderfynwyd</u>: - gan aros***

- ***i. cynnwys unrhyw welliannau neu addasiadau fyddai eu hangen o ganlyniad i'r gwelliannau a gymeradwywyd i Gynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn y Cynllun Risg;***
- ***ii. cywiro'r gwahanol wallau ysgrifennu a theipio a chynnwys eglurhad o'r holl fyrfoddau a ddefnyddir;***
- ***iii. ymgorffori'r gwelliannau a restrwyd uchod yn y ddogfen;***

***anfon copi o Gynllun Lleihau Risg Drafft Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i Lywodraeth y Cynulliad, fel a nodwyd yn yr Arweiniad a gyhoeddwyd, er mwyn gallu cael trafodaeth anffurfiol gyda Llywodraeth y Cynulliad ar fwriadau'r Awdurdod cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub; ac argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub, yn ei gyfarfod ar Fehefin19eg 2006, bod y Cynllun Lleihau Risg yn cael ei gymeradwyo at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus. Hefyd, trefnu ymweliad ar gyfer holl aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub i Bentre Peryglon a threfnu bod y cerbyd addysgol amlddiben yno i'r aelodau ei weld yn ystod yr ymweliad.***

## 7) Newidiadau i'r Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau

Cyflwynwyd Mr Mike Halstead (Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) i'r aelodau gan Ms Sandra Forrest o Adran y Trysorydd. Yn absenoldeb y Trysorydd, cyflwynodd Mr Halstead ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) ac esbonio fod awdurdodau lleol yng Nghymru, oherwydd newidiadau i'r ddeddfwriaeth, yn adolygu'n barhaus eu rheoliadau ariannol a'r rheolau sefydlog mewn perthynas â chytundebau. Ar hyn o bryd,

roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnal adolygiad o'r fath a gan fod Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd yn seiliedig ar reoliadau Cyngor Conwy, byddai ei reoliadau yntau'n cael eu newid maes o law. Pan fyddai'r fersiynau diwygiedig o'r rheoliadau a'r rheolau sefydlog yn barod, byddent yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod i'w cymeradwyo. Yn y cyfamser, ac oherwydd yr uniad rhwng Adran Ystadau'r Gwasanaeth gydag Adran Rheoli Adnoddau Heddlu Gogledd Cymru, roedd angen gwneud dau newid i Reoliadau Ariannol yr Awdurdod a'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau. Byddai'r newidiadau hyn yn cael eu hymgorffori yn y Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Sefydlog Mewn Perthynas â Chytundebau diwygiedig maes o law. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd E C George ynghylch a allai'r Awdurdod gael cytundeb gydag un o'r awdurdodau cyfansoddol gyda'r bwriad o gael pris mwy cystadleuol mewn meysydd megis ynni, dywedodd Mr Nigel Williams, Rheolwr Ystadau'r Gwasanaeth, fod yr Awdurdod eisoes yn aelod o gonsortiwm yr awdurdodau lleol yr oedd y Cynghorydd George yn cyfeirio ato:

***Penderfynwyd:* -**

- ***i.*** ***bod yr holl gytundebau a wneir yn enw Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gan yr Adran Ystadau newydd yn agored i'r Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau presennol; ac***
- ***ii.*** ***yr ystyrir fod unrhyw gytundeb a wneir fel rhan o'r trefniadau cydweithredol y tu allan i gwmpas Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog mewn perthynas â Chytundebau presennol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.***

## 8) Monitro Perfformiad

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am berfformiad y Gwasanaeth yn erbyn y gwahanol ddangosyddion perfformiad yn ystod cyfnod adrodd 2005/06. Esboniodd fod yr adroddiad yn un hunanesboniadol gan ddweud wrth yr aelodau y gallent, pe dymunent, weld y data a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad petaent yn dymuno hynny. Tynnwyd sylw'r Panel at nifer o feysydd ble roedd perfformiad yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn adrodd wedi gwella'n aruthrol. Un o'r meysydd hynny oedd nifer y prif danau, roedd y rhain wedi gostwng 4.8%; gyda nifer y tanau yr aeth y Gwasanaeth atynt wedi gostwng 26% o'i gymharu â'r ffigwr yn 2001.

I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd John Smith, rhestrodd y Prif Swyddog Tân a swyddogion eraill nifer o achosion lle y cafwyd erlyniadau llwyddiannus yn dilyn achosion o danau bwriadol. Cafodd yr aelodau wybod fod angen tystiolaeth o safon uchel i allu erlyn yn llwyddiannus yn dilyn tân bwriadol. Er bod y swyddogion efallai'n fodlon mai wedi ei gynnau'n fwriadol yr oedd tân, fe allai sefyllfa godi nad oedd digon o dystiolaeth ar gael i ddwyn erlyniad

llwyddiannus. Hefyd, ni fyddai'r swyddogion yn ymwybodol bob amser i ba raddau yr oedd yr Heddlu'n llwyddo i erlyn ym mhob achos.

I ateb cwestiynau eraill, cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân bod perfformiad y Gwasanaeth yn erbyn y dangosyddion sy'n ymwneud â salwch, er i'w gweld yn siomedig ac yn uwch na'r targed, mewn gwirionedd yn welliant sylweddol o'i gymharu â'r perfformiad yn y flwyddyn flaenorol. Y gobaith oedd y byddai'r cytundeb Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol diwygiedig, cyflwyno Polisi Rheoli Presenoldeb newydd y Gwasanaeth a'r polisi dim ysmygu, ynghyd â'r gwaith mewn perthynas â'r cais am y wobr iechyd corfforaethol yn gymorth i'r Awdurdod yn y dyfodol wrth iddo ymdrechu i wella ei berfformiad yn y maes hwn. Felly:

***Penderfynwyd*: - nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

### 9) Y diweddaraf ar y Rhaglen Cymru ar gyfer gwella – Awdurdodau Tân ac Achub

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi adroddiad cynnydd i'r aelodau am ddatblygiad Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI) ar gyfer awdurdodau tân ac achub. Esboniodd fod yr holl fanylion oedd ar gael ar hyn o bryd i'w gweld yn yr adroddiad:

***Penderfynwyd*: - nodi'r cynnydd a wnaethpwyd gan y Cynulliad wrth lunio drafft at ddiben ymgynghori o'r cyfarwyddyd ar Raglen Cymru ar gyfer Gwella – Awdurdodau Tân ac Achub.**

### 10) Ymestyn Tâl Salwch

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am y penderfyniadau a wnaed gan y Prif Swyddog Tân yn dilyn ymgynghoriad â'r Cadeirydd o ran caniatáu ymestyn tâl salwch. Felly:

***Penderfynwyd*: - nodi'r adroddiad.**

### 11) Materion Brys

Dim.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau mai'r argymhelliad oedd trafod yr eitemau busnes oedd yn weddill ar yr agenda heb i'r cyhoedd a'r Wasg fod yn bresennol.

***Penderfynwyd*: - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym**

***Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I o Atodlen 12A of Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972 yn cael ei datgelu iddynt.***

**RHAN II**

## 12) Cyd-ymateb – y diweddaraf ar y sefyllfa yn genedlaethol

Cafodd aelodau'r Panel y diweddaraf ar lafar gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân ynghylch materion yn ymwneud ag achos cyfreithiol oedd wedi ei ddwyn yn yr Uchel Lys gan ddau awdurdod tân ac achub mewn perthynas â chyd-ymateb, ac yn benodol drefniadau cytundebol y Cytundeb Tâl ac Amodau Gwasanaeth 2003. Roedd cais wedi ei anfon at yr Awdurdod am gyfraniad ariannol, trwy Gyd-Gyngor Cenedlaethol yr Awdurdodau Tân ac Achub (NJC), tuag at gostau cyfreithiol yr awdurdodau oedd yn mynd i gyfraith. Dywedodd y swyddogion fod penderfyniad wedi cael ei wneud ar y cychwyn i beidio â chyfrannu at y ffioedd cyfreithiol, ond ers hynny roedd y Cyd-Gyngor unwaith eto wedi dod at yr Awdurdod gyda chais tebyg. I ateb cwestiynau'r aelodau, dywedodd y swyddogion fod yr awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru wedi cyfrannu at y gronfa. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith fod y Fframwaith Tân ac Achub ar gyfer Cymru yn bendant ynghylch disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru i ddarparu gwasanaeth cyd-ymateb. Cynigiodd y Cynghorydd E C George, a eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd E F Evans, y dylai'r Awdurdod gyfrannu'r swm y gofynnwyd amdano at gostau cyfreithiol y ddau awdurdod dan sylw. Roeddent o'r farn y byddai goblygiadau trwy'r wlad o ganlyniad i'r achos cyfreithiol gan fod y Cytundeb yn gytundeb cenedlaethol. Rhoddodd y Cynghorydd W J Chorlton welliant gerbron sef na ddylai'r Awdurdod gyfrannu at y costau ariannol. Eiliwyd y gwelliant gan y Cynghorydd J A Smith. Pan bleidleisiwyd, cafodd y gwelliant a'r cynnig yr un faint o bleidleisiau. Gwahoddwyd y Cadeirydd gan y Clerc i ystyried defnyddio ei bleidlais fwrw. Cyn defnyddio ei bleidlais fwrw gofynnodd y Cadeirydd am gyngor y Clerc ynglŷn a'i hawl, fel aelod o'r Cyd-Gyngor, i bleidleisio ar y mater. Dywedodd y Clerc nad oedd hyn yn fuddiant personol i'r Cadeirydd, gan fod y mater dan ystyriaeth yn un ynghylch a ddylai'r Awdurdod gyfrannu at gostau cyfreithiol dau awdurdod oedd yn aelodau o'r Cyd-Gyngor ac nid (er enghraifft) yn ymwneud â threfniadau ariannu'r Cyd-Gyngor ei hun. Defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw o blaid y cynnig, felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn anfon y swm y gofynnwyd amdano i'r Cyd-Gyngor fel ei gyfraniad at gostau cyfreithiol y ddau awdurdod oedd yn aelodau o'r Cyd-Gyngor ac oedd wedi dwyn achos yn yr Uchel Lys ynglŷn a mater yn ymwneud â Chyd-Ymateb.***

## 13) Gwaith ailfodelu Gorsaf Dân y Fflint

Yn absenoldeb y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau), cyflwynodd y Prif Swyddog Tân yr adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio cymeradwyaeth yr aelodau i wario mwy na'r ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y gwaith ailfodelu yng ngorsaf dân y Fflint. Cafodd yr aelodau wybod

bod yr adroddiad yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol a bod Mr Nigel Williams, Rheolwr Ystadau'r Gwasanaeth, yno i ateb unrhyw gwestiynau:

***<u>Penderfynwyd</u>: - awdurdodi y Prif Swyddog Tân i dderbyn y tendr ail isaf ac i wario'r swm o £121,500 a ragwelid ar y cynllun hwn a bod y gwariant ychwanegol yn cael ei ariannu o dan wariannau o fewn Cyllideb yr Adran Eiddo.***

**14) Y Diweddaraf am y Prosiectau Cyfalaf**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân adroddiad y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau), a ddosbarthwyd o flaen llaw, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am raglen gyfalaf yr Adran Eiddo. Esboniodd fod yr adroddiad, oherwydd sensitifrwydd masnachol, i'w drafod dan fusnes Rhan II:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad***

**15) Y diweddaraf am y berthynas rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru**

Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd fod rhagor o drafodaethau wedi cymryd lle rhyngddo ef a Mr Steve Thomas, Cyfarwyddwr WLGA. Roedd Mr Thomas yn cytuno â barn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar nifer y cynrychiolwyr y dylai pob Awdurdod Tân ac Achub ei gael ar Banel Gwasanaethau Tân WLGA – ac mai'r Gymdeithas ddylai fod a'r penderfyniad terfynol. Roedd Pwyllgor Cydlynu WLGA nawr i fod i drafod y mater yn ei gyfarfod nesaf. Yr argymhelliad a fyddai'n mynd ymlaen i'r Pwyllgor Cydlynu fyddai y dylai pob awdurdod tân ac achub gael pum cynrychiolydd ar Banel Gwasanaethau Tân WLGA. Addawodd y Cadeirydd adrodd ynghylch penderfyniad y Pwyllgor Cydlynu i'r Awdurdod.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.40 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** <u>T Roberts</u> **Dyddiedig:** <u>21 Medi, 2006</u>